

Mae PNP ar Facebook at www.facebook.com/ParcNaturPenglais

Newyddlen Rhif No. 55 Tachwedd 2021

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol: Wrth ystyried peryglon parhaol y pandemig Covid, na fydd CCB eto eleni. Mae'r Pwyllgor a Swyddogion cyffredol wedi cytuno i aros yn eu swyddi nes bydd modd cynnal cyfarfod yn y ffordd arferol.

Cynhaliwyd cyfarfod pwyllgor wrth y golygole ym mis Mai 2021 a chyfarfod tu fewn ym mis Medi, yr un cyntaf ers Mis Chwefror 2020. Cyfetholwyd Jeff Saycell, Rheolwr Adnoddau Chwaraeon a Thiroedd y Brifysgol, i'r Pwyllgor yn y cyfarfod Mis Medi.

Am na chynhyrchwyd newyddlen y llynedd, mae'r rhif hwn yn cynnwys rhai pethau a fyddai wedi bod yn newyddlen Mis Tachwedd 2020.

Defnydd o'r Parc yn ystod y Pandemig: Roedd yn glir o gyflwr y llwybrau bod mwy o bobl na'r arfer wedi bod yn defnyddio'r Parc ar gyfer ymarfer corff ac ymlacio yn ystod y cyfnodau clo. Yn anffodus, doedd peiriannau cyfrif y Cyngor Sir, sy'n cyfrif y rhai sy'n mynd trwy fynedfeydd PNP, ddim yn gweithio. Na thrwsiwyd y rhain tan fis Mai eleni felly nid oes gennym gofnod o'r niferoedd oedd yn defnyddio'r Parc yn ystod y cyfnodau clo.



Yr artist Brian Swaddling a threfniant petalau Camellia ar goed syrthiedig yn y Parc (Lluniau gan Len Kersley)

Byddai rhai sydd wedi cerdded yn y Parc wedi mwynhau gweld cyfres o ddarnau celf ag adeiladwyd gyda deunyddiau naturiol. Ymddangosodd y rhain ar bwys y llwybrau trwy'r goedwig. Roedd nifer ohonynt wedi'u creu o betalau a dail gan yr artist Brian Swaddling. Roedd eraill wedi creu darnau celf gan ddefnyddio cerrig.

Cyllid Prosiect: Derbyniwyd grantiau o £800 a £840 gan Gyngor Tref Aberystwyth ym mis Mai 2020 a mis Mai 2021 i gyflawni gwaith cynnal a chadw yn y Parc (gweler tudalen 2). Derbyniwyd grantiau gan Bartneriaeth Natur Leol Ceredigion hefyd. Y cyntaf, £663, oedd yn ymateb i'r galw am gyllid i osod blychau nythu adar a blychau ystumod yn ardal Coed Bryn y Môr y Parc. Rhoddwyd yr ail rant, £216, ar gyfer mwy o flychau nythu i gymryd lle hen focs ym mhrif ardal y Parc nag oedd bellach yn addas i'w defnyddio.

Derbyniodd y Grŵp Cefnogi cyfanswm o £65 gan unigolion er cof am berthnasau oedd wedi mwynhau defnyddio'r Parc tra oeddynt yn fyw.

Blychau adar ac ystlumod: Gosodwyd y 10 blwch nythu adar a 6 blwch ystlumod, a gyllidwyd gan Bartneriaeth Natur Leol Ceredigion, yn estyniad Bryn y Môr y Parc yn gynnar ym mis Mawrth 2021. Adeiladwyd yr holl flychau gan Peter Drake ac fe'u gosodwyd ganddo gydag ychydig o gymorth gan ychydig o aelodau'r Pwyllgor (gan gadw pellter cymdeithasol).



Blychau ystlumod (yn y blaen) a blychau nythu adar yn barod i'w gosod yng nghoedwig Bryn y Môr (Llun gan Len Kersley)

Mae'r blychau ystlumod i ddyluniad cydnabyddedig ac fe'u hadeiladwyd o bren ffynidwydd douglas (*Douglas fir*) lleol heb ei drin. Adeiladwyd y blychau adar gyda thyllau eitha' mawr yn y gobaith o ddenu gwybedogion brith (*pie'd flycatchers*) i nythu ynddynt. Gosodwyd y blychau gan wynebu cyfeiriadau gwahanol ac mewn amgylcheddau amrywiol er mwyn rhoi dewis mawr i'r darpar denantiaid, er mae'n bosibl bydd rhai ohonynt yn canfod titw lleol yno yn barod.

Rhoddyd map o'r lleoliadau i Moira Convery fel bydd modd iddi a'i gwirfoddolwyr ychwanegu data o'r blychau i'r cofnodion gwych am brif goetir y Parc y mae hi wedi cadw i Ymddiriedaeth Adareg Prydain dros nifer o flynyddoedd.

Cofnodion Blychau Nythu Adar ar gyfer 2021: Roedd yn flwyddyn siomedig o ran defnydd y blychau nythu ym mhrif ardal y Parc. Mae hyn yn adlewyrchu adroddiadau o ardaloedd eraill. Roedd y tywydd wael ar ddechrau'r flwyddyn wedi lleihau nifer y titw ac roedd cyflwr y rhai a lwyddodd i oroesi yn salw, gan arwain at lai o geisiadau i nythu a llai o gywion. Roedd y coed derw yn hwyr wrth fagu dail felly roedd llai o lindys adeg geni'r cywion, gan achosi i'r cywion lewygu. O'r 28 blwch nythu ym mhrif ardal y Parc, roedd 3 yn cynnwys nythod a adawyd cyn doddi unrhyw wyau, roedd 8 nyth wedi methu ac roedd yr wyau wedi mynd o 2 ohonynt (diolch i wenci). Dim ond 7 blwch fu'n cynnal y cywion, gyda chyfanswm o 15 o gywion o'r 3 nyth titw mawr a 18 gan y 4 nyth titw tomos las.

Doedd dim ymchwiliad i'r bocsys yn 2020 ar sail cyfyngiadau covid ond wrth gymharu'r canlyniadau o eleni â rhai 2019, roedd y nifer o ditw mawr a fflwsiodd yn debyg yn y 2 flwyddyn ond roedd y titw tomos las wedi gwneud yn sylweddol well yn 2019 gan fflwsio 39 o gywion.

Er nag oedd y blychau newydd ar gyfer yr estyniad i'r Parc wedi'u gosod tan ychydig cyn y tymor nythu eleni, roedd titw tomos las yn 2 ohonynt. Roedd un nyth wedi fflysiu 5 o gywion a'r llall wedi fflysiu 1 cyw. Hefyd, am y tro cyntaf yn y parc, defnyddiodd dryw un bocsg gan fagu 6 o gywion.

(Gyda diolch i Moira Convery)

Dyddiau Gwaith a Chynnal a Chadw yn y Parc: Llosgwyd eithin gan Peter Drake a myfyrwyr o Wirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth yn y Chwarel ym mis Chwefror 2020. Wedyn, roedd y clo yn tarddu ar y gwaith a allai gwirfoddolwyr gyflawni ond yn yr hydref gosodwyd 8 postyn canllaw wrth Gae Melyn a thrwsiodd 11 gris rhwng Cae Melyn a Danycoed. Roedd Peter Drake yn gweithio ar ben ei hun wedi i'r Cyngor gymeradwyo nifer o ffurflenni asesiad risg. Bydd grant y Cyngor Tref

eleni yn cyllido tri diwrnod gwaith gan Peter a 5 o fyfyrwyr o'r ACV sy'n gwirfoddoli. Cymeradwywyd y gwaith a gaiff ei wneud ar dri dydd Sadwrn rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr. Trwsir y grisiau uwchben Danycoed ac adnewyddir gwrthglawdd ar bwys fainc Mathur.



Chwith: Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth yn helpu llosgi'r eithin yn ardal y Chwarel ym mis Chwefror 2020 (Llun gan David Kirby)

De: Y llwybr o dan rwystr beiciau Bryn y Môr ar ôl i'r arwyneb cael ei adnewyddu (Llun gan Len Kersley)



Er nad oedd yn bosibl trefnu timoedd gweithio yn ystod y clo, cyflawnwyd cannoedd o oriau o waith cynnal a chadw answyddogol gan unigolion preifat. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau wrth fynedfa Ffordd y Bryn, cynnal a chadw llwybrau troed mewn sawl man a chlirio draen ar hyd y prif lwybr. O ganlyniad i hyn, cafwyd môr o glychau'r gôg yn ystod y gwanwyn. Bydd rhaid ail-wneud hyn blwyddyn nesaf er mwyn sicrhau cyflenwad da arall o glychau'r gôg yn ystod y gwanwyn nesaf. Ym mis Awst, adnewyddwyd arwyneb llwybr ar ochr gorllewinol y Parc o Ffordd Bryn y Môr i Ffordd y Bryn, gan wirfoddolwyr. Roedd angen tynnu'r mwd oedd wedi rhwystro pobl rhag cerdded mewn tywydd gwlyb a dod â dros 20 tunnell o gerrig mân i mewn i greu arwyneb newydd sy'n addas at bob tywydd.

Meinciau Newydd: Yn ystod Mis Mai, derbyniodd y Grŵp Cefnogi cais am fainc newydd rhwng mynediad y Brifysgol wrth y tai gwydr a mynedfa PNP er les y rhai sy'n blino ar y llwybr hwn. Am y byddai mainc felly ar dir y Brifysgol, anfonwyd y cais ymlaen at Jeff Saycell yn y Brifysgol. Trefnwyd i staff y Brifysgol osod mainc yn gynnar ym mis Mehefin.


Yn ystod yr haf, cynigiodd Glenys Tyler (gweddw Bruce Tyler, un o sylfaenwyr y Parc) gyfrannu mainc er cof amdano. Mae'r fainc sydd ar y Prif Lwybr, ar bwys Giât y Prifathro, bron tu hwnt i'w thrwsio ac awgrymwyd y gellid gosod y fainc newydd yno er cof am Bruce. Ceisiwyd caniatâd gan Gyngor Ceredigion ac maen nhw wedi cytuno. Comisiynwyd crefftwr lleol Rhodri Morice gan Glenys i adeiladu mainc dderw o ddyluniad priodol a bydd Peter Drake yn gosod y fainc yn y misoedd i ddod.

Yn fwy cyffredinol, awgrymwyd y byddai'r holl feinciau ar draws y Parc yn para am hirach pe tasent yn cael eu trin yn rheolaidd gydag olew had llin neu rywbeth tebyg. Gallai gwirfoddolwyr o'r Grŵp Cefnogi wneud hyn.

Arolwg Coed: Archwiliwyd cyflwr rhai o'r coed gan Paul Evans (Cyngor Ceredigion) ym mis Medi / Hydref 2021. Archwiliwyd coed ar hyd y rhwydwaith llwybrau o fewn y Parc a hefyd rhai ar hyd ymylon y safle. Nag oedd llawer o goed onnen yn y goedwig ac mae'r rhai sydd ar bwys y llwybrau ar ochr ogleddol y safle gan y mwyafrif, a hefyd rhwng Giât y Prifathro a Llannerch y Ffawydd. Nag oedd llawer o'r coed hwn yn dangos unrhyw fawr o symptomau o laddwr yr ynn (*ash dieback*) ac roedd y rhan fwyaf o fewn dosbarth iechyd 2. Mae hyn yn cyfeirio at gysgod brigdyfiant (*canopy*

cover) rhwng 51% a 75% gyda'r coed mewn cyflwr gweddol neu dda. Bydd angen archwilio'r coed bob blwyddyn. Ceir ffynhonnell dda o wybodaeth am laddwr yr ynn ar www.treecouncil.org.uk/Ash-Dieback

Ni chofnodwyd unrhyw faterion o bwys ar goed o rywogaethau gwahanol ag eithrio'r pren farw neu cyflwr brigdyfiant gwael a nodwyd yn achos nifer fach o fasarnen a cheirios gwyllt aeddfed. Gall hyn deillio o gyfuniad o adegau sych yn ystod yr haf a difrod gan wiwerod, a welwyd ar sawl masarnen. Gwyddys bod rhisgl y coed hyn at ddant y gwiwerod yn ystod y tymor tyfu. Mae'r llun (ar y dde) yn dangos un o'r coed onnen mwyaf yn y Parc, a ddisgrifiwyd gan Paul fel "coeden nodweddiadol a thipyn o gymeriad".



Un o'r coed onnen fwyaf yn y Parc (Llun gan Paul Evans)

Defnydd Cae Brynhyfryd (Cae'r Ceffylau) i'r Ddyfodol: Nid yw'r cae hwn, sydd ar bwys yr estyniad i'r Parc, bellach yn cael ei bori ac mae opsiynau i'r dyfodol yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r opsiynau yn cynnwys tai, prosiect ynni adnewyddadwy neu cyfuno â'r Parc ar gyfer cadwraeth natur ac hamdden. Mae'r Grŵp Cefnogi wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr Cyngor Ceredigion i gefnogi'r opsiwn olaf. Deëllir bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn debyg o ffafrio'r opsiwn hwn hefyd. Mae adolygiad y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i oedi ar hyn o bryd.

Mynediad i Bawb: Mae'r Grŵp Cefnogi wedi bod yn ystyried sut i ddarparu mynediad i'r anabl i'r prif lwybr trwy'r Parc i Lannerch y Ffawydd, a sut i wella hygyrchedd i bobl sydd â phramiau. Mae'r opsiynau'n cynnwys gwella mynediad o Bentre Jane Morgan, heibio'r ffermdy, neu o Ffordd Penglais, heibio tai gwydr y Brifysgol. Cyfrifoldeb y Brifysgol fyddai'r 2 opsiwn. Opsiwn amgen fyddai adeiladu llwybr syth mewn i'r Parc o Dŷ Clwb y Clwb Golff.

Golygydd: Steve Cuttle (ebost spcuttle@btinternet.com)

Gyda diolch i'r rhai a dosbarthodd y copiau print i dai lleol, Cyngor Tref Aberystwyth am ddarparu cyfleusterau argraffu, Laurie Wright am osod y newyddlen ar wefan Grŵp Aberystwyth Gwyrddach, Jeff Smith am baratoi'r cyfieithiad Cymraeg ac i bwyllgor PNP am eu cyfraniadau a phrawf ddarllen.

Bydd y newyddlen ar gael yn ddwyieithog ar wefan GAG ar <http://www.aber-gag.org.uk/> ac ar dudalen Facebook PNP (www.facebook.com/ParcNaturPenglais)